Cymru: cyfarfod dirprwyedig Rhagfyr 2024

02/01/2025

See all updates

Atodlen o benderfyniadau o dan bwerau dirprwyedig Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer Cymru ar 3 Rhagfyr 2024.

Penderfyniadau ariannu

Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

High Street Chapel Building Project

Ymgeisydd: Friends of High Street Baptist Church

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect deufis yw hwn sydd â'r nod o atgyweirio hollt ar wal dalcen adeilad y capel sy'n achosi treiddiad lleithder yn uniongyrchol y tu ôl i'r organ bib.

Penderfyniad: Dyfarnu grant o £47,195 (99%)

Learning from the Past: Giving to the Future

Ymgeisydd: Prosiect Down To Earth

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect dwy flynedd yw hwn sydd â'r nod o gyflwyno amrywiaeth o raglenni addysgol â ffocws ar lesiant a chyrsiau hyfforddi mewn adeiladu traddodiadol a naturiol a rheoli tir cynaliadwy i bobl ifanc ac oedolion o grwpiau cymunedau difreintiedig ac agored i niwed yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Sir Gâr.

Penderfyniad: Gwrthod

Camlas Aberhonddu | Brecon Canal 225

Ymgeisydd: Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect un mis ar bymtheg (Rhagfyr 2024 i Fawrth 2026) o waith cadwraeth ymarferol ar dri safle treftadaeth a chyfres o ddigwyddiadau, gweithdai ac arddangosfeydd i ddathlu pen-blwydd Camlas Aberhonddu yn 225 mlwydd oed.

Penderfyniad: Gwrthod

40 Years On: LGBTQ+ activism and life in Wales 1985–2025

Ymgeisydd: Mardi Gras Lesbiaidd Hoyw, Deurywiol a Thrawsryw Caerdydd yng Nghymru

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect pedwar mis (Rhagfyr 2024 i Fawrth 2025) i gyflwyno ystod o weithgareddau ar draws Mis Hanes LHDTC+ i ddathlu, codi ymwybyddiaeth a brwydro yn erbyn dilead hanes LHDTC+ yng Nghymru wrth gasglu

a chadw storïau ac arteffactau.

Penderfyniad: Dyfarnu Grant o £26,220 (100%)

Adeiladu Cynaladwyedd a Chydnerthedd: Heneb – Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru

Ymgeisydd: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect dwy flynedd yw hwn sydd â'r nod o atgyfnerthu Heneb, sydd newydd ei sefydlu fel sefydliad cydnerth a chynaliadwy ar raddfa genedlaethol. Bydd y prosiect yn ceisio cryfhau gweithrediadau, strategaeth a gwaith ymgysylltu cyhoeddus y sefydliad a chynyddu cyfranogiad gwirfoddolwyr, creu presenoldeb digidol cryfach, ac amrywio ffrydiau refeniw.

Penderfyniad: Dyfarnu Grant o £238,150 (100%)

Bronheulog / Adnewyddu Bwthyn Sefydliad y Merched

Ymgeisydd: Sefydliad y Merched Llanafan

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect 7 mis (Rhagfyr 2024 – Mehefin 2025) yw hwn sydd â'r nod o wella man cyfarfod rhestredig Gradd 2 Sefydliad y Merched Llanafan, sef Bronheulog yng Ngheredigion. Mae diffyg gwres canolog a d?r o'r prif gyflenwad, ynghyd â seddau anghyfforddus, yn golygu bod rhwystrau i fynediad ar hyn o bryd ar gyfer y rhai sydd efallai yn dymuno dod i gyfarfodydd SyM.

Penderfyniad: Dyfarnu Grant o £11,782 (96%)

Growing Communities

Ymgeisydd: Ein Cegin CIC

Disgrifiad o'r Prosiect: Mae'r prosiect wedi'i amserlennu i bara deuddeg mis a phrif nodau'r prosiect yw gweithio i wella mynediad at fwyd maethlon a gynhyrchir yn gynaliadwy trwy weithdai coginio cymunedol am ddim a darpariaeth bwyd cynnes, gan ddod â phobl at ei gilydd i goginio a bwyta bwyd tymhorol ffres lleol, gan ddod â theuluoedd difreintiedig ac agored i niwed ynghyd i archwilio eu hanes bwyd, casglu storïau ac atgofion bwyd a dathlu treftadaeth fwyd leol

Penderfyniad: Dyfarnu Grant o £16,550 (100%)

Casgliad Cof/Memory Collection

Ymgeisydd: Making Sense CIO

Disgrifiad o'r Prosiect: Bwriad y prosiect dwy flynedd hwn yw creu casgliad cof parhaol o eitemau bob dydd o'r 1950au i'r 1980au i'w defnyddio fel adnoddau hel atgofion ar gyfer pobl sydd wedi'u heffeithio gan ddementia.

Penderfyniad: Gwrthod

Ynys Greigiog – Building Resilience at Ynys-hir / Ynys Greigiog – Adeiladu Gwydnwch yn Ynys-hir

Ymgeisydd: Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)

Disgrifiad o'r Prosiect: Mae hwn yn brosiect carlam tair blynedd i brynu tir gerllaw gwarchodfa natur Ynys-Hir RSPB Cymru, gwrthdroi ei dirywiad ecolegol, a chynyddu cwmpas eu rheolaeth ar gynefinoedd.

Penderfyniad: Dyfarnu Grant o £205,005 (49%)

Cynnydd grant

The extension, enhancement and future-proofing of the Y Lanfa Community and Cultural Hub and Wharf.

Ymgeisydd: Cyngor Sir Powys

Disgrifiad o'r Prosiect: Fel rhan o'r prosiect hwn, mae estyniad i adeilad Y Lanfa yn cael ei greu - bydd y canopi presennol ar yr adeilad yn cael ei amgáu ar ddwy ochr gyda gwydr ac ar y trydydd gyda wal cedrwydd i ddarparu gofod deulawr newydd. Bydd hyn yn creu man cymunedol hyblyg a mwy hygyrch fel lleoliad ar gyfer grwpiau lleol ac yn galluogi mwy o arddangosfeydd a rhaglenni addysgol.

Penderfyniad: Gwrthod